



Ein cyf/Our ref SF/LA/1902/12

Ed Richards
Prif Weithredwr
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

29 Mai 2012

c.c. Elinor Williams, Cyfarwyddwr
Ofcom Cymru
Elinor.Williams@ofcom.org.uk

Amwygl Ed,

Yn y llythyr dyddiedig 28 Mai 2010, drwy arfer ei bŵer o dan adran 14(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Deddf 1993), cyfeiriodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) gynllun iaith Gymraeg at Weinidogion Cymru. Yr oedd y cynllun wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd gan Ofcom ar 26 Mawrth 2010 o dan adran 12 o Ddeddf 1993 er mwyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

Yn y llythyr hwnnw, dywedodd y Bwrdd ei fod ef ac Ofcom wedi trafod paratodau Ofcom ar gyfer cynllun iaith Gymraeg, ond na ddaethpwyd i gytundeb ynghylch telerau cynllun y gallai'r Bwrdd ei gymeradwyo. Dywedodd y Bwrdd mai'r rheswm am y methiant i gytuno ar delerau cynllun oedd oherwydd bod Ofcom wedi gwrthod cytuno i gais y Bwrdd iddo gynnwys yn y cynllun fesur lle byddai Ofcom yn ystyried, o fewn ei drefniadau ar gyfer trwyddedu gwasanaethau darlledu sain lleol, natur ieithyddol yr ardal y byddai'r darparwr yn darparu'r gwasanaethau iddi, a thrwy hynny felly yr angen am wasanaeth darlledu radio Cymraeg.

Yn yr un llythyr, gofynnodd y Bwrdd i Weinidogion Cymru arfer eu pŵer o dan adran 14(5) i benderfynu ar delerau'r cynllun ac i gynnwys y mesur canlynol yn y cynllun (mesur y Bwrdd):

"Ymysg y gwasanaethau y mae Ofcom yn eu darparu i'r cyhoedd y mae dyfarnu trwyddedau radio lleol. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon mewn perthynas ag ardal yng Nghymru, bydd Ofcom yn sicrhau bod ei weithdrefnau a'i bolisiau yn cymryd ystyriaeth briodol o natur ieithyddol yr ardal honno, gan gynnwys asesu, lle bo'n briodol, y graddau y bydd ymgeisydd am drwydded newydd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg."

Ar 19 Hydref 2011, ysgrifennais at y Bwrdd ac atoch chi yn gofyn am sylwadau'r Bwrdd a'ch sylwadau chi. Ar ôl derbyn sylwadau'r Bwrdd a'ch sylwadau chi, ar 9 Tachwedd 2011, rhoddais gopi i'r Bwrdd ac i chi o sylwadau'r Bwrdd a'ch sylwadau chi a gofynnais am farn y Bwrdd ynghyd â'ch barn chi amdanynt.

Ar 28 Chwefror 2012, drwy arfer pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 14(4) o Ddeddf 1993, ysgrifennais at y Bwrdd ac atoch chi i ofyn i chi a'r Bwrdd geisio cytuno ar delerau cynllun iaith Gymraeg ar eich cyfer chi cyn 27 Mawrth 2012. Ni lwyddodd y Bwrdd a chi i ddod i gyntundeb cyn y dyddiad hwnnw, nac wedi hynny.

Dylwn nodi, ar 1 Ebrill 2012, o dan adran 143(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bod swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â chynlluniau iaith Gymraeg, wedi cael eu trosglwyddo i Gomisiynydd y Gymraeg.

Arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 14(5) o Ddeddf 1993

Rwyf wedi penderfynu arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 14(5) o Ddeddf 1993 a phenderfynu ar delerau cynllun iaith Gymraeg Ofcom.

Drwy arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 14(5) o Ddeddf 1993, rwyf wedi talu sylw i Ran II o Ddeddf 1993, yn enwedig adrannau 5 a 12. Rwyf wedi cymryd i ystyriaeth delerau'r cynllun iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Ofcom o dan adran 12, mesur y Bwrdd, sylwadau'r Bwrdd a'ch sylwadau chi ac ymateb y Bwrdd a chi i'r sylwadau hynny. Rwyf hefyd wedi ystyried y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd o dan adran 9 o Ddeddf 1993 ynghylch paratoi Cynlluniau iaith Gymraeg, yn enwedig baragraffau 1.15 -1.21 yn gynwysedig a Chanllawiau 2, 3, 4, 7(v) ac 8(v). Mae adran 5(3) o Ddeddf 1993 yn ei gwneud yn ofynnol bod Canllawiau adran 9 yn cael eu hystyried gan Ofcom wrth iddo lunio cynllun iaith Gymraeg.

Er nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol, rwyf wrth gwrs yn rhoi sylw i adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd rwymedigaethau rhyngwladol y DU, gan gynnwys y rhai hynny o dan Erthygl 27 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, sydd yn llywio fy marn i ynghylch y modd y dylai Gweinidogion Cymru arfer y pwerau o dan adran 14, ac a fydd hefyd yn llywio'r modd y bydd Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau.

Telerau Cynllun iaith Gymraeg Ofcom

Drwy arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 14(5) o Ddeddf 1993, a thrwy gydymffurfio â dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 14(5)(a) o Ddeddf 1993, amgaeaf delerau cynllun iaith Gymraeg Ofcom y penderfynwyd arnynt gan Weinidogion Cymru (cynllun Ofcom).

Mae cynllun Ofcom yn dilyn yn glos delerau'r cynllun iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Ofcom i'r Bwrdd o dan adran 12 o Ddeddf 1993. Ymddengys nad oes dadl am y telerau hynny, oherwydd unig asgwrn y gynnen, yn ôl yr hyn a gyfeiriwyd ataf i o dan adran 14(2) o Ddeddf 1993 mewn perthynas â chynllun iaith Gymraeg Ofcom, yw mesur y Bwrdd.

Yn y rhagymadrodd, rwyf wedi diweddarau rhai cyfeiriadau yn unol â chanllawiau adran 9 i adlewyrchu'r ffaith fod telerau cynllun iaith Ofcom wedi cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(5) o Ddeddf 1993. Rwyf hefyd wedi diwygio ambell beth yn adran 2, 'cefnidir', er enghraifft i ddiweddarau rhifau ffôn, ac rwyf wedi dileu cyfeiriad at lefelau staffio a strwythurau rheoli a allai newid yn ystod oes cynllun iaith Gymraeg Ofcom.

Mae cynllun Ofcom yn darparu y bydd yn dod i rym ar 29 Awst 2012. Mae cynllun Ofcom hefyd yn darparu y bydd Ofcom, erbyn yr un dyddiad, yn paratoi cynllun gweithredu pedair blynedd manwl a fydd yn nodi sut y bydd yn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'i gynllun.

Nid yw cynllun Ofcom yn cynnwys mesur y Bwrdd. Yn fy marn i, mae'r mesur a gynigir gan y Bwrdd yn ddehongliad rhy eang o'r gweithgareddau sy'n golygu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.

Serch hynny, rwyf wedi dod i'r casgliad y gellir llunio mesur i'w gynnwys yng nghynllun Ofcom am yr ystyriaeth y gallai Ofcom ei rhoi i'r defnydd o'r Gymraeg mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau Ofcom i'r cyhoedd yng Nghymru. Diben y cyfryw fesur fyddai gweithredu'r egwyddor yn adran 5(2) o Ddeddf 1993, sef, cyn belled ag y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau, ac yn rhesymol ymarferol, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Caiff y mesur hwnnw'i gynnwys ym mharagraff 3.5 o gynllun Ofcom, ac mae wedi'i fframio fel a ganlyn:

Byddwn ni yn rhoi ystyriaeth briodol i'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau hynny'n cynnwys:

- a. paratoi a chyhoeddi ein Canllawiau Lleolrwydd, a
- b. cyflawni ein swyddogaethau trwyddedu mewn modd sy'n anelu at sicrhau bod deunydd lleol yn cael ei gynnwys mewn darllediadau trwyddedig, gan gynnwys deunydd sydd â chynnwys ieithyddol penodol a/neu'n cael ei gyflwyno mewn modd ieithyddol penodol a hynny, lle bo angen, drwy osod amodau ar y drwydded.

(Deddf Darlledu 1990 adrannau 85 a 105; Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 314)

Yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan Ofcom yn ei sylwadau, yr wyf am bwysleisio nad yw'r mesur hwn yn mynnu bod Ofcom, ym mhob achos, yn gosod amodau ar drwyddedeion sy'n darparu gwasanaethau darlledu sain lleol yng Nghymru a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarlledu yn Gymraeg.

Casgliadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chynnwys y mesur a nodir ym mharagraff 3.5 o gynllun Ofcom

Yn fy marn i mae swyddogaethau Ofcom o ran trwyddedu gwasanaethau radio lleol, a'r swyddogaethau cysylltiedig, yn golygu neu'n cynnwys "gwasanaethau i'r cyhoedd" at ddibenion adran 5 o Ddeddf 1993.

Felly, gan roi i "wasanaethau i'r cyhoedd" ei ystyr cyffredin (sy'n golygu darparu buddiant yn gyffredinol), wrth gymhwyso egwyddorion "lleolrwydd" i'r broses drwyddedu ei hun rwyf o'r farn bod dadl gref o blaid bod yr agwedd hon ar drwyddedu, yn yr amgylchiadau penodol hyn, yn golygu neu'n cynnwys "gwasanaethau i'r cyhoedd". Felly, mae'r pwerau a'r dyletswyddau sydd i'w harfer gan Ofcom wrth gyflawni'r swyddogaeth drwyddedu ei hun yn ymestyn hyd at gynnwys y gwasanaeth terfynol a ddarperir i'r cyhoedd, ac nid dim ond at faterion mwy "gwrthrychol" fel goruchwyllo addasrwydd trwyddedeion a ffurfioli gweithdrefnau ar gyfer cael trwyddedau. Felly, rwyf o'r farn bod cyflawni swyddogaethau trwyddedu Ofcom, mewn modd sy'n sicrhau bod deunydd lleol yn cael ei gynnwys mewn darllediadau trwyddedig, gan gynnwys deunydd sydd â chynnwys ieithyddol penodol a/neu'n cael ei gyflwyno mewn modd ieithyddol penodol a hynny, lle bo angen, drwy osod amodau ar y drwydded, yn golygu "gwasanaethau i'r cyhoedd."

Yr wyf hefyd o'r farn bod y canllawiau a'r wybodaeth i'r cyhoedd a luniwyd ac a gyhoeddwyd gan Ofcom, gan gynnwys y Canllawiau Lleolrwydd eu hunain a gyhoeddwyd o dan adran 314(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, yn amlwg yn "wasanaethau i'r cyhoedd".


Nid yw'n ymddangos i mi bod dadl ynghylch hyn yn y sylwadau a ddaeth i law.

Yn fy marn i, gall defnyddio'r Gymraeg fod yn ystyriaeth mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau hynny i'r cyhoedd yng Nghymru. Rwyf o'r farn bod gan Ofcom bŵer i ddylanwadu ar gynnwys rhaglenni o ran eu natur ieithyddol.

Rwyf o'r farn y caiff cynnwys rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg (a gyda llaw, rwyf o'r farn y byddai hyn yn debygol o fod yn gymwys i ddeunydd mewn ieithoedd eraill hefyd) olygu "deunydd lleol" o fewn y diffiniad o "ddeunydd lleol" yn adran 314(7) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Nid wyf yn credu bod absenoldeb cyfeiriad penodol at 'iaith' yn y diffiniad hwnnw yn golygu na all "deunydd lleol" gynnwys cymeriad ieithyddol. Yng ngoleuni geiriad adran 314(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'r diffiniad o "ddeunydd lleol" yn berthnasol i gwmpas a chynnwys y Canllawiau Lleolrwydd (a gyhoeddwyd o dan adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003).

Ategir fy safbwyntiau ynghylch cwmpas y diffiniad o "ddeunydd lleol" gan y rhwymedigaethau cyffredinol ar Ofcom o dan adran 85 o Ddeddf Darlledu 1990 i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y darperir ystod ac amrywiaeth o wasanaethau lleol. Hefyd, mae rhwymedigaeth ar Ofcom i ystyried i ba raddau y byddai unrhyw wasanaeth a gynigir yn darparu ar gyfer "chwaeth a diddordebau" ardaloedd penodol yng Nghymru ac i ba raddau y byddai'r gwasanaethau a gynigir yn ehangu ystod y rhaglenni sydd ar gael i bersonau sy'n byw yn yr ardal y darperir y gwasanaeth iddi, o fewn ystyr adran 105 Deddf Darlledu 1990.

Ar y sail hon felly, yr wyf wedi dod i'r casgliad y gellir ffurfio mesur i'w gynnwys yng nghynllun Ofcom am yr ystyriaeth y gallai Ofcom ei rhoi i'r defnydd o'r Gymraeg mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau Ofcom i'r cyhoedd yng Nghymru. Diben y mesur yw gweithredu'r egwyddor yn adran 5(2) o Ddeddf 1993, sef, cyn belled ag y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau, ac yn rhesymol ymarferol, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Ynggwir
 Andrew

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills